# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar Ddydd Mercher, Tachwedd 21 2012 am 9.30 y bore.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr D Owens (Cadeirydd), R Bartley (sylwedydd), B Blakeley, J A Butterfield, W L Cowie, J.A. Davies J.M. Davies M Ll. Davies (is gadeirydd), R J Davies, S.A. Davies, C. L. Guy-Davies, H Hilditch-Roberts, C. Hughes, T.R. Hughes, E.A. Jones, P M Jones, M McCarroll, W M Mullen-James, R M Murray, P W Owen, T M Parry, A Roberts, D Simmons, W.N. Tasker, J Thompson-Hill, J S Welch, C H Williams, C L Williams a H O Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio (Graham Boase), Rheolwr Rheoli Datblygiad (Paul Mead), Prif Swyddog Cynllunio (Ian Weaver), Prif Gyfreithiwr – (Cynllunio a Phriffyrdd) (Susan Cordiner), Arweinydd Tîm (Cefnogi) (Gwen Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) a Chyfieithydd (Catrin Gilkes).
Mynychodd y Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff (Martha Savage) ran o'r cyfarfod.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr I W Armstrong a R L Feeley

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

Mynegodd y Cynghorydd T. M. Parry fod ganddo ddiddordeb yng nghais Cyf 47/2012/1120
(Cyn Ladd-dy, Ffordd Treffynnon, Rhuallt)

## 3 EITEMAU BRYS: Dim

## 4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 HYDREF 2012.

Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir.

## 5 CEISIADAU AM GANIATÂD AR GYFER DATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Diogelwch Cyhoeddus (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhestru ceisiadau oedd wedi'u cyflwyno ac yr oedd gofyn i'r Pwyllgor wneud penderfyniad arnynt.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u ceir o fewn yr adroddiad a gyflwynwyd, ac y dylid naill ai ganiatáu neu wrthod, fel ag sy'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Tref a Sir (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, y Ddeddf Gynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysu Cynllunio Tref a Sir 1991 a/neu Ddeddf Gynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 y cynigion sy'n rhan o'r ceisiadau canlynol yn amodol ar yr amodau a restrwyd yn yr atodlen a gyflwynwyd:-*

**Cais Rhif:** 01/2012/0813/PF

**Lleoliad:** **Gwaenynog Bach, Dinbych**

**Disgrifiad:** Gosod tyrbin gwynt micro generadur 50kw gyda bocs rheoli a chaban offer

**Siaradwyr Cyhoeddus:** Mr E Hughes (ymgeisydd)
Esboniodd Mr Hughes fod arno angen cynhyrchu pŵer er mwyn lleihau costau ei fferm laeth, sy'n ddibynnol iawn ar drydan. Roedd wedi cael cyngor ar leoliad y tyrbin ac wedi derbyn cadarnhad bod y swyddogion yn cytuno gyda'i gynnig.

Cynigiodd y Cynghorydd S. Davies y dylid RHOI caniatâd.
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies

Dyma ganlyniad y bleidlais:-

**25 wedi pleidleisio i GANIATÁU**
**0 wedi pleidleisio i WRTHOD**
**0 wedi Atal Pleidlais**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD.**

***Yn amodol ar:*** Amodau Diwygiedig 3 & 4

3. Bydd lleoliad y tyrbin, y fynedfa i'r safle a'r trac yn y safleoedd sy'n cael eu nodi ar y cynlluniau a gyflwynwyd, yn amodol ar amrywiad a ganiateir yn safle'r tyrbin hyd at 25 metr i'r de, de-orllewin neu'r gorllewin i sicrhau bod modd cael byffer 50m rhwng y tyrbin a therfyn gwrych y cae i'r gogledd a'r dwyrain. Bydd yn rhaid cael caniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn y gellid amrywio'n fwy na 25 metr.

4. Mae'r caniatâd hwn yn ymwneud yn unig â chodi tyrbin gwynt 3 llafn fel y disgrifiwyd yng nghynlluniau a darluniau'r cais gyda'r hyd rhwng blaen y llafn a lefel gwreiddiol y ddaear yn ddim mwy na 46m.

**Cais Rhif:** 24/2012/1032/PO

**Lleoliad:** **Tir ger Neuadd y Pentref Rhewl Rhuthun**

**Disgrifiad Diwygiedig:** Datblygiad 0.29 hectar o dir trwy ddymchwel neuadd y pentref a chodi anheddau (Caniatâd amlinellol, neilltuwyd holl faterion)

Nodwyd bod llythyrau wedi'u derbyn oddi wrth y canlynol:
Asiant, yn cadarnhau perchnogaeth (Cyngor Eglwys Llanynys a Llanychan)
Ymgynghorydd Coed y Cyngor;
Pennaeth Priffyrdd

**Siaradwyr Cyhoeddus:**
Yn erbyn - Mr I Hedley (cymydog)
Mynegodd Mr Hedley ei wrthwynebiad taer i'r datblygiad hwn, gan nodi ei fod yn teimlo nad oedd angen mwy o dai yn Rhewl gan fod digon o dir heb ei ddatblygu ar gael. Roedd hefyd yn gofidio y byddai gwrych cymysg aeddfed yn diflannu. Roedd Mr Hedley yn teimlo y gallai'r Eglwys, sydd wedi bod yn galon y pentref ers tro, fod wedi'i hadnewyddu. Nododd na fu unrhyw ymgynghoriad neu gyfarfod pentref i drafod y mater. Roedd Mr Hedley yn teimlo bod hwn yn ddatblygiad nad oedd ei angen ac nad oedd modd ei gyfiawnhau.

O blaid - Ms. J Lovelady (Asiant)
Roedd Ms. Lovelady yn teimlo y byddai'r pentref yn elwa o'r tai a gynigiwyd. Dywedodd bod y tir o fewn y ffin ddatblygu a bod tai eisoes ar dair ochr y tir dan sylw. Defnyddiwyd y safle ddiwethaf yn 2010 ond bod diffyg galw am yr eglwys. Roedd yr adeilad yn 90 oed ond yn wreiddiol, roedd disgwyl iddo barhau 50 mlynedd yn unig. Nid oedd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch union ddyluniad a safle'r anheddau; mae'r datblygwr yn bwriadu darparu digon o ofod ar gyfer mwynderau a gosod gwrych a choed newydd o fewn y safle. Er gwaethaf honiadau i'r gwrthwyneb, nid oedd unrhyw anghydfod ynghylch perchnogaeth, mae'r gweithredoedd wedi'u gwirio.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd J. M. Davies ar y pwynt hwn (9.45 y bore); gan nad oedd wedi clywed y siaradwyr cyhoeddus, dywedwyd wrtho y gallai benderfynu a oedd am bleidleisio ar y cais neu beidio]

Nododd y Cynghorydd H. Hilditch Roberts ei fod wedi'i fagu yn Rhewl a'i fod wedi mynychu'r Eglwys hon. Gofynnodd ynghylch sylwadau'r Cyngor Cymuned gan gwestiynu'r datganiadau ynghylch yr angen am dai fforddiadwy. Roedd hefyd yn tybio a oedd angen gofod agored gan fod cae chwarae'r pentref gyferbyn. Erfyniodd am sicrhau bod unrhyw gytundeb cyfreithiol yn hollol gadarn.

Awgrymodd y Prif Swyddog Cynllunio Ian Weaver bod y Cyngor Cymuned yn cynnig y farn leol gan ddweud eu bod yn "gwrthwynebu'n gryf". Nododd y byddai'n rhaid i'r safle gael gofod ar gyfer mwynderau neu fan chwarae os oedd mwy na 10 annedd yn cael eu hadeiladu, ond nad oedd y gofyniad polisi hwn yn weithredol pe byddai llai na 10 annedd.

Roedd y Cynghorydd M. Parry wedi mynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned ac roedd yn ymddangos iddo ef mai ychydig iawn o ymgynghoriad oedd wedi digwydd rhwng yr eglwys a'r pentref.
[Cyrhaeddodd y Cynghorydd T. R. Hughes ar y pwynt hwn (9.50 y bore); gan nad oedd wedi clywed y drafodaeth, dywedwyd wrtho y gallai benderfynu a oedd am bleidleisio ar y cais neu beidio]

**Cynigion:** Cynigiodd y Cynghorydd S. Davies y dylid RHOI caniatâd.
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd P. Owen.

Dyma ganlyniad y bleidlais:-

**21 wedi pleidleisio i GANIATAU**
**3 wedi pleidleisio i WRTHOD**
**2 wedi Atal Pleidlais**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

***Yn amodol ar:*** Amodau Newydd / Diwygiedig

4. Dylid darparu a chynnal cyfleusterau o fewn y safle ar gyfer llwytho, dadlwytho, parcio a throi cerbydau yn unol â chynllun sydd i'w gytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a dylid cwblhau hyn cyn y bydd y datblygiad arfaethedig yn cael ei ddefnyddio.
5. Bydd yn rhaid cyflwyno manylion ynghylch y gosodiad, y dyluniad, trefniadau tawelu traffig, goleuadau stryd, arwyddion, draeniad a chynlluniau ar gyfer lledu'r ffordd, gosod llwybr troed newydd a ffordd fewnol yr ystâd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer eu cymeradwyo ganddynt cyn i unrhyw waith ddechrau ar y safle, a bydd yn rhaid i'r holl waith gael ei gwblhau yn unol â'r darluniau a gymeradwywyd cyn y bydd unrhyw annedd yn derbyn trigolion.
6. Bydd yn rhaid sicrhau bod y goleddau gweledaid a ddangosir ar y cynllun a gymeradwyir bob amser yn rhydd o unrhyw blannu, tyfiant coed neu wrychoedd, neu unrhyw beth arall sy'n fwy na 1.05 metr uwchben lefel y ffordd gerbydau gyfagos.

Dyma'r rhesymau am yr amodau:

4. I ddarparu ar gyfer parcio ceir yn glir o'r briffordd ac i sicrhau nad oes raid i unrhyw gerbydau yrru ar eu hôl i'r briffordd neu o'r briffordd i hybu diogelwch traffig.

5. I sicrhau bod holl ddefnyddwyr y briffordd yn gallu symud yn rhydd ac yn ddiogel ac i sicrhau bod modd ffurfio mynediad diogel a boddhaol.

6. I sicrhau bod gwelededd digonol yn cael ei ddarparu ger y mynediad arfaethedig i'r briffordd.

**Cais Rhif:** 24/2012/1193/PF

**Lleoliad:** **Bod Ynys Rhewl Rhuthun**

**Disgrifiad:** Codi clamp silwair

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod nodiadau Swyddogion pellach ar gael ar yr adroddiad adendwm a rhoddwyd amser iddynt eu darllen.

Ni chafwyd trafodaeth ar yr eitem hon.

**Cynigion:** Cynigiodd y Cynghorydd H. O. Williams y dylid RHOI caniatâd. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd A. Roberts.

Dyma ganlyniad y bleidlais:-

**25 wedi pleidleisio i GANIATAU**
**1 wedi pleidleisio i WRTHOD**
**0 wedi Atal Pleidlais**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

## **Cais Rhif:** 47/2012/1120/PF

**Lleoliad:** **Cyn Ladd-dy, Ffordd Treffynnon, Rhuallt, Llanelwy**

**Disgrifiad:** Adeiladu cyfleuster treuliad anaerobig, tirlunio a seilwaith cysylltiol.

Mynegodd y Cynghorydd Merfyn Parry fod ganddo ddiddordeb yn y cais hwn, a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a ddilynodd.

**Siaradwr Cyhoeddus**: Nick Chapman (o blaid)
Roedd Mr Chapman yn cynrychioli'r ymgeiswyr a oedd yn dymuno adeiladu cyfleuster treulio anaerobig i'w rannu rhwng tri chyngor. Bydd y cyfleuster yn lleihau'r gwastraff bwyd sy'n cael ei dirlenwi, gan ei drosi'n fio-wrtaith. Bydd nwy methan yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio i gynhyrchu trydan. Bydd y gwaith yn darparu swyddi lleol yn ystod yr adeiladu ac wedyn yn yr uned ei hunan. Mae'r cynnig yn cydymffurfio gyda pholisi lleol a chenedlaethol.

Cyflwynwyd Ms Martha Savage (Swyddog Mwynau a Gwastraff Cyngor Sir y Fflint yn cyd-weithio gyda Chynllunio Sir Ddinbych) fel y swyddog achos.

Holodd y Cynghorydd Cheryl Williams ynghylch y bygythiad i'r Madfall Ddŵr Gribog. Dywedodd Ms Savage bod arolwg wedi'i gynnal ond nad oedd unrhyw Fadfallod neu byllau cynefin wedi'u canfod. Fodd bynnag, gan ein bod yn gwybod fod Madfallod Dŵr Cribog i'w cael yn y cyffiniau, bydd mesurau yn cael eu cymryd i rwystro unrhyw niwed ac i ddiogelu cynefinoedd.

Roedd y Cynghorydd Alice Jones yn teimlo na ddylid defnyddio'r Madfallod Dŵr Cribog fel esgus i beidio â datblygu gan fod y safle hwn wedi bod mewn defnydd amaethyddol ers sawl blwyddyn.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd B. Blakely ar y pwynt hwn (10.00 y bore). Roedd am nodi nad oedd yn dymuno pleidleisio ar y cais hwn].

**Cynigion:** Cynigiodd y Cynghorydd B. Cowie y dylid RHOI caniatâd.
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd M. Lloyd Davies.

Dyma ganlyniad y bleidlais:-

26 wedi pleidleisio i GANIATAU
0 wedi pleidleisio i WRTHOD
0 wedi Atal Pleidlais

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD.**

***Yn amodol ar:*** Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd

Mewn perthynas ag Amodau'r caniatâd hwn, gofynnir i chi gysylltu â Swyddog Rheoli Llygredd y Cyngor i drafod sut i gyfyngu ar sŵn os oes angen dymchwel adeiladau'r lladd-dy.

**Cais Rhif:** 45/2012/0280/PF

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **Uned 2 a 3 Gwaith Glan Aber Ystâd Fasnach Glan Aber, Vale Road, Y Rhyl** |
| **Disgrifiad:** | Newid defnydd o ganolfan trwsio ceir i ganiatáu'r gwaith o drosglwyddo gwastraff asbestos wedi'i fagio a'i selio i sgipiau diogel: gosod carthbwll/tanc dal; pont bwyso a gosod caban symudol. |

Derbyniwyd y llythyrau canlynol:

Mr Justin Paul (J10 Planning Ltd) yn gwrthwynebu

Roedd y Cynghorydd P. Jones yn gofidio bod y safle'n cefnu ar Coronation Gardens, llwybr troed a safle tai arfaethedig. Roedd y Cynghorydd Jones yn gobeithio y byddai'r cyfyngiadau yn rhoi digon o amddiffyniad.

Gofynnodd Aelodau am fanylion pellach o'r broses fagio, gwaredu a'r risg o dân a llwch.

Esboniodd Martha Savage (Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff) bod contractwyr trwyddedig yn casglu gwastraff asbestos o safleoedd. Mae'r deunydd yn cael ei fagio'n ddwbl mewn sachau trwchus sy'n cael eu rhoi mewn sgipiau sydd wedyn yn cael eu symud o'r safle pan fyddant yn llawn. Mae'r deunydd yn cael ei waredu yn y pen draw yng Ngogledd Orllewin Lloegr.
Mae'n rhaid cael trwydded sy'n cael ei rheoleiddio gan Asiantaeth yr Amgylchedd.
Awgrymir y gellir gosod amod i fonitro'r aer a hefyd odi unrhyw fesurau y gellir eu gosod i rwystro llwch a thân.
Gofynnodd y Cynghorydd J. Butterfield ynghylch cofnodion monitro'r aer, lle byddent yn cael eu cadw a pha mor hyderus ydyn ni y byddai'r monitro yn digwydd.

Teimlai Martha Savage y byddai'n briodol mynnu bod y Cyngor yn cael copïau o'r cofnodion. Gofynnodd Cynghorwyr pa mor aml y byddai'r monitro yn digwydd ac a fyddai modd i Gynghorau Tref gael gweld yr adroddiadau.

Er bod hynny'n ddibynnol ar Asiantaeth yr Amgylchedd, dywedodd Ms Savage y byddai amodau ar waith i sicrhau bod ymarfer monitro aer cefndir yn digwydd cyn

i’r datblygiad ddechrau.  Yna dylai monitro wythnosol ddigwydd, ac yn dilyn hynny, monitro llai aml pe na fyddai unrhyw broblemau yn dod i’r amlwg.

Wrth ateb i ymholiadau eraill, dywedodd Ms Savage bod asbestos ar hyn o bryd yn cael ei gadw ar y safle adeiladu a’i gludo wedyn i’w waredu yn Lloegr. Roedd yn gwneud synnwyr storio asbestos o’r ardal i’w gludo gyda’i gilydd i arbed costau cludo.

- Mae’r cyfeiriad at “garthbwll” wedi’i gamddehongli. Mae’n rhaid rheoli gwastraff ar arwyneb wedi’i selio i rwystro unrhyw dir o amgylch rhag cael ei halogi, a rhaid dal unrhyw ddŵr wyneb a’i symud yn ddiogel. Mae’r “carthbwll” yn fan cadw i’r dŵr hwn.
- Mae lorïau cludo yn cael eu selio a’u gwagio dan orchudd.
- Mae terfyn ar faint o ddeunydd gaiff ei storio ond ni fwriedir cyrraedd y terfyn hwnnw.
- Dyma dir a ddynodwyd ar gyfer cyfleoedd gwaith ac mae’n addas ar gyfer lorïau mawr.

Mynegwyd pryder ynghylch llifogydd posibl ar y safle, gyda dŵr a halogwyd wedyn yn llifo i mewn i The Cut gerllaw.

**Cynigion:**  Cynigiodd y Cynghorydd P. Jones y dylid RHOI caniatâd.
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd M. McCarroll.

Cytunwyd ymhellach i anfon llythyr at Asiantaeth yr Amgylchedd yn tynnu sylw at bryderon bod prosesau yn cael eu monitro a’u rheoli’n agos o gofio bod y lleoliad yn agos at lwybr traed a thai.

Dyma ganlyniad y bleidlais:-

**24 wedi pleidleisio i GANIATAU**
**3 wedi pleidleisio i WRTHOD**
**1 wedi Atal Pleidlais**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

**Cais Rhif:** v45/2012/1163/CA

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **1 Willow Court, Y Rhyl** |
| **Disgrifiad:** | Cadw ffens 1.8 metr o uchder ynghlwm wrth wal derfyn sy’n bodoli eisoes. (Cais ôl-weithredol) |

Dosbarthwyd cynllun yn nodi’r safle dan sylw.

Roedd cydnabyddiaeth na fyddai clawdd angen caniatâd cynllunio, ond er mai ystâd “dyluniad agored” oedd hon, byddai ar unrhyw eiddo angen caniatâd cyn codi ffens uwch na 1 metr gerllaw’r briffordd. Nid yw diffiniad “gerllaw” yn hollol glir o fewn y ddeddfwriaeth, ac mae’n rhaid gwneud penderfyniad ar bob achos.

Dyma ganlyniad y bleidlais:-

**PLEIDLAIS:**
**1 wedi pleidleisio i GANIATAU**
**25 wedi pleidleisio i WRTHOD**
**2 wedi Atal Pleidlais**

**FELLY GWRTHODWYD RHOI CANIATÂD.**

## EITEM 6 – EITEMAU GORFODI

## Cyf ENF/2012/00032

**Lleoliad:** **1 Willow Court , Rhyl**

**Disgrifiad**: Ffens 1.8 metr o uchder anawdurdodedig ynghlwm wrth wal derfyn sy'n bodoli eisoes

Ni chafwyd trafodaeth ar yr eitem hon.

**Cynigion**: Cynigiodd y Cynghorydd M. Ll. Davies y dylid gweithredu'n orfodol. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd D. Simmons.

Dyma ganlyniad y bleidlais:-

28 pleidlais dros awdurdodi Gweithredu Gorfodi.
0 pleidlais yn erbyn.

Penderfynwyd: Y dylid awdurdodi'r canlynol:

(i) Cyflwyno Hysbysiad Gorfodi i leihau uchder y terfyn blaen anawdurdodedig gerllaw'r briffordd i 1 metr neu lai o fewn cyfnod o 2 fis.

(ii) Os na cheir cydymffurfio gyda gofynion yr Hysbysiad Gorfodi hwn, dylid rhoi trefniadau erlyn ar y gweill, neu unrhyw weithred briodol yn ôl y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person neu'r personau y mae Hysbysiad Gorfodi neu unrhyw Hysbysiad arall wedi'i gyflwyno iddynt.

## Cyf ENF/2012/00020

**Lleoliad:** **The Royal Hotel Bridge Street Llangollen**

**Disgrifiad**: Newid Defnydd y Gwesty heb Awdurdod i Westy defnydd cymysg a Hostel ar gyfer y digartref

Hysbysodd y Cynghorydd S. Davies y Pwyllgor bod rhai o drigolion y Royal Hotel yn gyfrifol am ymddygiad gwrthgymdeithasol diweddar yn Llangollen. Roedd y Cynghorydd Davies wedi clywed bod Cyngor Sir Bwrdeistref Wrecsam wedi bod yn defnyddio'r gwesty fel llety i gyn-garcharorion.

**Cynigion**: Cynigiodd y Cynghorydd S. Davies y dylid gweithredu'n orfodol. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd R. Davies.

Dyma ganlyniad y bleidlais:-

26 pleidlais dros awdurdodi Gweithredu Gorfodi.
2 bleidlais yn erbyn.

PENDERFYNWYD :
Bod y Pwyllgor Cynllunio yn awdurdodi cyflwyno Hysbysiad Gorfodi o fewn cyfnod cydymffurfio o 2 fis, yn gofyn am roi'r gorau i ddefnyddio'r adeilad fel gwesty defnydd cymysg neu hostel i'r digartref, ac i adfer yr adeilad i'w cyn-ddefnydd fel Gwesty yn darparu llety am gyfnodau byr i deithwyr gyda chyfeiriadau parhaol rhywle arall.

Dylid rhoi trefniadau erlyn ar y gweill yn erbyn unrhyw berson y mae'r Hysbysiad Gorfodi neu unrhyw Hysbysiad arall wedi'i gyflwyno iddynt os ydynt yn methu neu'n gwrthod cydymffurfio gyda gofynion yr hysbysiadau.

## Cyf ENF/2012/00033

**Lleoliad:** **Fferm Bryntirion Rhuallt**

**Disgrifiad**: Newid defnydd cae amaethyddol heb ei awdurdodi i ddefnydd cymysg preswyl ac amaethyddol. Datblygiad heb ei awdurdodi - gosod carafán breswyl statig; adeiladu tŷ mewn coeden ac ysgol i gael ato; gwifren sbri a phlatfform glanio.

Esboniodd Swyddogion bod caniatâd wedi'i wrthod i gadw'r tŷ mewn coeden ym Mai 2012, bod trafodaethau gyda'r preswylydd wedi bod yn aflwyddiannus. Roedd achosion pellach o fynd yn groes i amodau cynllunio hefyd ac felly roedd angen awdurdodi swyddogion i ddelio gyda'r mater ymhellach.

**Cynigion**: Cynigiodd y Cynghorydd M. Ll. Davies y dylid Gweithredu'n Orfodol. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd M. Parry.

Dyma ganlyniad y bleidlais:-

26 pleidlais dros awdurdodi Gweithredu Gorfodi.
2 bleidlais yn erbyn.

PENDERFYNWYD : Bod y Pwyllgor Cynllunio yn awdurdodi cyflwyno Hysbysiad Gorfodi o fewn cyfnod cydymffurfio o 2 fis, gan fynnu:

(i) Bod y Tŷ Mewn Coeden a'r Wifren Sbri heb eu hawdurdodi yn cael ei symud o'r tir amaethyddol.

(ii) Rhoi diwedd ar y defnydd o dir amaethyddol fel man chwarae / hamdden a'i adfer i'w ddefnydd gwreiddiol fel cae amaethyddol.

(iii) Symud y garafán statig heb ei hawdurdodi o'r tir.

Dylid rhoi trefniadau erlyn ar y gweill yn erbyn unrhyw berson y mae'r Hysbysiad Gorfodi neu unrhyw Hysbysiad arall wedi'i gyflwyno iddynt os ydynt yn methu neu'n gwrthod cydymffurfio gyda gofynion yr hysbysiadau.

## Cyf ENF/2012/00031

**Lleoliad:** **45 Stryd Aquarium Rhyl**

**Disgrifiad**: Heb ganiatâd – Is-rannu annedd yn 4 fflat hunan gynhaliol.

**Cynigion:** Roedd y Cynghorydd J. Butterfield yn croesawu'r weithred hon ac yn cynnig y dylid awdurdodi gweithredu.
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd W. Mullen James

Dyma ganlyniad y bleidlais:-

27 pleidlais dros awdurdodi Gweithredu Gorfodi.
1 bleidlais yn erbyn.

PENDERFYNWYD: Y dylid awdurdodi'r canlynol:

(i) Cyflwyno Hysbysiad Gorfodi o fewn cyfnod cydymffurfio o 9 mis i sicrhau bod holl waith datblygu heb ei awdurdodi yn cael ei ddiddymu a bod yr eiddo yn cael ei adfer i'w ddefnydd gwreiddiol fel uned breswyl sengl.

(ii) Os na cheir cydymffurfio gyda gofynion yr Hysbysiad Gorfodi hwn, dylid rhoi trefniadau erlyn ar y gweill, neu unrhyw weithred briodol yn ôl y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person neu'r personau y mae Hysbysiad Gorfodi neu unrhyw Hysbysiad arall wedi'i gyflwyno iddynt.

## EITEM 7

**ADRODDIAD I GEISIO PENDERFYNIAD AR YR AMODAU CYNLLUNIO I'W RHOI YNGHLWM WRTH GAIS CYNLLUNIO 11/2012/0373**
**CAIS RHIF: 11/2012/0373**

**CYNNIG:** **Gosod tyrbin gwynt micro-generadur 50kW (Rhif. 1) gyda bocs rheoli a llwybr mynediad**

**LLEOLIAD:** **Cil Llwyn, Bontuchel, Rhuthun**

Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus, yn ceisio penderfyniad gan Aelodau ar yr amodau cynllunio i'w rhoi ynghlwm wrth y Dystysgrif Benderfyniad i gais cynllunio cyf: 11/2012/0373 sef cais y rhoddwyd caniatâd iddo yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor.

Esboniodd Swyddogion ei bod hefyd yn angenrheidiol adrodd nôl i'r pwyllgor gan sefydlu'r rhesymau dros fynd yn erbyn yr argymhelliad yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2010. Roedd yr amodau a awgrymwyd yn debyg iawn i'r rhai y cytunwyd arnynt ynghynt i gais Gwaenynog Back, Dinbych.

Codwyd cwestiynau ynghylch gwerth gosod cyfyngiad cynllunio 25 mlynedd ar y caniatâd ond derbyniwyd bod hyn yn gyson gyda chynigion tebyg.

Dyma ganlyniad y bleidlais:

28 pleidlais dros dderbyn yr amodau a'r rhesymau a awgrymwyd yn adroddiad y swyddogion
0 pleidlais yn erbyn.

**Eitem 8 CANLYNIAD APÊL CYNLLUNIO**

**RHYDDHAU GOFYNIAD CYNLLUNIO MEWN PERTHYNAS Â THALU SWM AM DDARPARU TAI FFORDDIADWY A GOFOD AGORED**

**PLAS DERWEN, ABBEY ROAD, LLANGOLLEN**

**CAIS 03/2011/0696**

Esboniodd swyddogion gefndir yr achos hwn. Roedd yr Arolygydd Apêl wedi dyfarnu o blaid yr apeliwr ac wedi caniatáu newid y cytundeb Adran 106. Ni fydd yn rhaid i'r datblygwr nawr dalu'r swm a nodwyd yn y cytundeb.

Cafwyd trafodaeth ar ddyfodol cytundebau Adran 106 a gwerth Bondiau fel trefn wahanol.

Roedd swyddogion wedi awgrymu y byddai hwn yn destun addas i'w drafod mewn Pwyllgor Craffu a diolchodd i Aelodau am y drafodaeth ddefnyddiol hon, a oedd yn cynnwys sylwadau fel a ganlyn:

- Ni ddylai penderfyniad un Arolygydd newydd polisi bob tro.
- Dylid ystyried bondiau, yn enwedig pan fydd symiau mawr dan sylw.
- Dylid cymryd Gweithredu Gorfodol ynghynt os daw'n amlwg bod datblygwr wedi mynd yn groes i gytundeb 106.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05 y bore.